| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | **Pwyllgor Cynllunio** |
| Dyddiad y Cyfarfod: | **16 Tachwedd 2016** |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | **Y Cynghorydd David Smith / Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai** |
| Awdur yr Adroddiad: | **Luci Duncalf, Swyddog Polisi Cynllunio** |
| Teitl: | **Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft: Man Agored Cyhoeddus Hamdden - Dogfen Ymgynghori** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â nodyn drafft Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar fan agored cyhoeddus hamdden. Mae swyddogion yn gofyn am gymeradwyaeth i ddechrau cyfnod ymgynghori cyhoeddus 8 wythnos gydag aelodau o'r cyhoedd ac ymgyngoreion statudol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae angen penderfyniad ar y mater o ymgynghori cyhoeddus ar y CCA drafft i symud ymlaen tuag at fabwysiadu'r ddogfen. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a chymeradwyaeth ddilynol o fabwysiadu dogfen yr Awdurdod Cynllunio Lleol, y gall CCAau gael eu trin fel ystyriaeth gynllunio berthnasol pan fydd Awdurdodau Cynllunio Lleol, Arolygwyr Cynllunio a Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r ddogfen CCA drafft amgaeedig 'Man Agored Hamdden', Atodiad 1, i fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus dros leiafswm o wyth wythnos.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Pan gafodd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 - 2021 (CDLl) ei fabwysiadu ym mis Mehefin 2013, penderfynodd y Cyngor gario pob CCA mabwysiedig ymlaen i'w defnyddio fel canllawiau cynllunio mewn perthynas â pholisïau'r CDLl. Cytunwyd hefyd y byddai adolygiad o bob CCA yn cael ei wneud cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl mabwysiadu Cynllun. Os caiff ei fabwysiadu, bydd y nodyn cyfarwyddyd newydd yn ychwanegu at y CCC Polisi CDLl 11 - Hamdden a Man Agored a CCC Polisi 12 - Cyfleusterau cymunedol.

4.2 Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi arweiniad i ddarpar ymgeiswyr ar ffurf gryno ac mewn un ddogfen. Darperir canllawiau er mwyn: (1) dangos y meini prawf a'r ystyriaethau a gaiff eu hystyried gan y Cyngor wrth asesu cynigion ar gyfer man agored mewn datblygiadau newydd; (2) rhoi cyngor ar gynllunio a dylunio mewn modd a fydd yn gwella golwg a gwerth darpariaeth man agored yn y dyfodol; (3) rhoi gwybodaeth ar reoli darpariaeth man agored ar safle ac oddi ar safle.

4.3 Mae'r CCA arfaethedig yn amlinellu disgwyliadau'r Cyngor o ran trothwyon darparu man agored mewn datblygiadau newydd. Yr amcan yw esbonio bod rhaid i fan agored ar safle adlewyrchu'r safonau ‘meincnod’ Meysydd Chwarae neu, lle na ellir darparu cyfleusterau ar y safle, bydd angen gwneud cyfraniadau i wella cyfleusterau presennol drwy swm cymudol.

4.4 Byddai'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus am o leiaf 8 wythnos a disgwylir iddo ddechrau yn fuan ym mis Tachwedd 2016. Ymgynghorir â phob Cyngor Cymuned, Dinas a Thref ynghyd â phobl sydd wedi'u cofrestru ar y gronfa ddata CDLl. Bydd copïau caled o'r holl ddogfennau ymgynghori ar gael ym mhob llyfrgell a siop un stop yn ogystal ag ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

4.5 Bydd sylwadau a safbwyntiau a fynegir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Grŵp Llywio CDLl; cyn gofyn am fabwysiadu’r ddogfen gan Bwyllgor Cynllunio yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Blaenoriaethau Corfforaethol 2012-17. Bydd y brîff datblygu safle yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y blaenoriaethau corfforaethol canlynol:

- *Moderneiddio'r Cyngor* i gyflawni effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid drwy sicrhau bod dogfennau canllawiau cynllunio yn gyfredol.
- *Strydoedd glân a thaclus* drwy ddarparu’r fframwaith ar gyfer sicrhau man agored, yn ogystal â threfniadau ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ni ragwelir y bydd cymeradwyo'r ddogfen CCA drafft i fod yn destun ymarfer ymgynghori gyda chyrff statudol a’r cyhoedd yn creu unrhyw gostau ychwanegol. Bydd y tîm Rheoli Datblygu yn elwa o fabwysiadu’r ddogfen wrth gyflenwi’r holl wybodaeth angenrheidiol am fan agored mewn datblygiad preswyl i'n cwsmeriaid cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio, ac felly, gwella'r broses penderfynu.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Daeth yr ymarfer sgrinio Asesiad o Effaith ar Les i'r casgliad bod CCA Man Agored Cyhoeddus Hamdden yn annog Sir Ddinbych mwy ffyniannus, gwydn, iach a chyfartal, a Sir gyda chymunedau cydlynol. Mae'n helpu i annog pobl i gael mynediad at eu hamgylchedd naturiol yn well os yw ar garreg eu drws. Gall

cyfraniadau gan ddatblygwyr helpu i gynnal safleoedd cadwraeth mwy o faint a chodi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd a bioamrywiaeth yn y lleoliad. Bydd cyfraniadau gan ddatblygwyr hefyd yn mynd tuag at gyfleusterau man agored oddi ar y safle mwy, ac yn helpu i'w gwella ac annog cyfranogiad amlach. Mae man agored wedi'i leoli'n dda sy’n hygyrch i bobl ar droed, yn hyrwyddo cerdded a ffyrdd iach o fyw drwy annog gweithgarwch corfforol a'r manteision iechyd cysylltiedig a ddaw yn sgil hyn, yn emosiynol ac yn gorfforol. Mae man agored cyhoeddus wedi’i gynllunio’n dda yn codi gwerth economaidd drwy brydferthwch ardal drwy annog datblygwyr i ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol bob amser. Mae’r Adroddiad Asesiad o Effaith ar Les cyflawn ynghlwm wrth yr adroddiad hwn fel Atodiad II.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

8.1 Nid oes unrhyw ymgynghori ffurfiol wedi’i gynnal eto, ond roedd swyddogion o’r Tîm Cynllunio Strategol a Thai a’r Tîm Rheoli Datblygiad yn cymryd rhan gynhwysfawr wrth ddrafftio'r ddogfen CCA. Cynhaliwyd sesiynau gweithdy gydag aelodau o Grŵp Llywio'r CDLl ym mis Hydref 2016.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

9.1 'Ni ragwelir y bydd cymeradwyo'r ddogfen CCA drafft yn golygu unrhyw gostau ychwanegol, ond os bydd yn gwneud hynny, yna bydd angen eu cynnwys o fewn cyllidebau refeniw gwasanaethau presennol y costau hyn.'

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?**

10.1 Yn absenoldeb canllaw cyfredol mae perygl na fydd y Cyngor yn gallu darparu cyngor cynllunio cywir i'w gwsmeriaid ynglŷn â chynigion sy'n ymwneud â man agored mewn datblygiadau newydd.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004